

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 4 Chwefror 2013 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

### Presennol

Cyng. Dilwyn Jenkins (Cadeirydd)

Cyng. Islwyn Iago

Cyng. Huw Jones

Cyng. Ann Stokoe

Cyng. Haydn Lewis (Aelod lleol o'r Cyngor Sir)  
(cyrraedd 8.20)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Lyn Jones

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Des Davies

Cyng. Auriol Williams

Mr Wynford Jones (Clerc dros dro)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Chwefror. Croesawodd yn arbennig y Clerc dros dro, Mr Wynford Jones. Llongyfarchwyd Miss Nerys Jones, Tygwyn, ar ei gorchestion ym myd y campau ym Mhencampwriaeth Prydain.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Eurig Lloyd (Cynllunio A130043)
- 5. Materion yn codi:**

**Cyfarfod gyda Mr Peter Lowe, Maes Carafanau Patch:** Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr Lowe yn dweud ei fod adre o'i wyliau. Cafwyd cyfarfod safle yn Patch ddydd Iau, 31 Ionawr am 11 o'r gloch gyda Mr Lowe, Mr Nigel Nicholas, y Cyng. Dilwyn Jenkins a'r Clerc (**Eitem 9 [146]**). **Eglurodd Mr Lowe ei fod wedi rhoi rhuban ar hyd y fynedfa oherwydd bod gwaith yn mynd yn ei flaen gyda'r "mini-digger" i deneuo'r eithin. Ymddiheurodd am unrhyw anghyfleustra a sicrhodd y gwnaed hynny oherwydd mesuriadau iechyd a diogelwch. Ychwanegodd hefyd bod y llain galed a osodwyd ganddo ger y carafanau tan ei ofal, ac ei fod yn cynnal a chadw'r darn tir oherwydd nad oedd y Cyngor Sir mewn sefyllfa ariannol i wneud hynny. Dywedodd y Cadeirydd bod yr amddiffynfa arfordirol wedi ei osod yn 1982 ac roedd hawl gan bawb i gerdded y llwybr tua'r traeth. Teimlwyd bod yr arwyddion ger y carafanau yn anghyson â'i gilydd.**

**Chwaraefan Cae Gwyrdd:** Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Miss Buddug James, swyddog gyda Chlwb Ffermwyr Ifainc Penyparc, yn cadarnhau bod pwyllgor y Clwb wedi trafod y mater o ail-leoli'r cyfarpar ger Ystafell Berkley. Penderfynwyd ganddynt bod amryw faterion i'w trafod cyn symud ymlaen. Awgrymodd y Clerc y dylid trefnu cyfarfod rhyngddynt a'r Cyngor. **Trafodwyd y mater a phenderfynwyd bod angen cynnig awgrymiadau cyn trefnu cyfarfod gyda swyddogion y Clwb Ffermwyr Ifainc. Bydd rhaid archwilio cyflwr y cyfarpar cyn eu symud a hefyd darganfod costau eu hail-leoli. Cytunwyd trefnu cyfarfod safle fore Sadwrn, 9 Chwefror am 10.00 o'r gloch yng Nghae Gwyrdd.**

**Balchder Pentrefi:** Dosbarthwyd gohebiaeth diweddaraf y Cyngor Sir yn ymwneud â'r cynllun i'r Cyngh. Llinos Price, Ann Stokoe ac Auriol Williams. Mae'r ohebiaeth yn cyfeirio at yr alwad terfynol sydd yn dirwyn ceisiadau i ben ar 4 Mawrth.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

**I'w penderfynu yn mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.**

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penyparc	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	£100.00
Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	
Gofal Mewn Galar	

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Cynllunio.

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A130043	Arosfa, Tremain. "Extension to curtilage and erection of garden room."	Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais.

**Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir:** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Chwefror 2013

**Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod gan y Cyngor Sir:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A120837	Greenore and land adjoining Tremain. "Retention of portacabin, log cabin and a touring caravan (used as showers) for business use and change of use to touring caravan site for 5 caravans, siting of 2 static caravans.	Wedi ei wrthod. (gweler manylion o'r penderfyniad gan y Clerc)
A120841	7 Brongwyn Court, Penparc: Proposed erection of a detached building as a 'hobby shed'	Wedi ei ganiatáu
A120864	Penffynnon, Ferwig: Erection of single storey attached garage to existing bungalow	Wedi ei ganiatáu
A120869AV	O. C. Davies & Son Ltd., Penparc Motors: Display of signage (illuminated and non-illuminated)	Wedi ei ganiatáu

**Cyfarfod Safle.** Ni chynhelir cyfarfod safle yn ystod y mis.

## 8. Materion Ariannol.

**Nid oedd biliau i'w talu y mis hwn.**

**Derbyniadau:** Dim

**Materion ariannol eraill:** Archwiliwyd cyfrifon y flwyddyn ariannol gyfredol hyd hyn gan y Cyng. Ann Stokoe ar 15 Ionawr, 2013 a'u cafwyd yn gywir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Stokoe am gyflawni'r gwaith pwysig yma unwaith yn rhagor.

**Archwilydd Mewnol y Cyngor:** Cais am ganiatâd i gysylltu â Mr Ken Griffiths i archwilio cyfrifon blynyddol y Cyngor am y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2013.

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y Cyngor yn gofyn i Mr Griffiths archwilio'r cyfrifon am y flwyddn 2012-13.

## 9. Gohebiaeth:

144	Chris Cooper	E-bost yn cadarnhau gwaredu'r gwahaddod o gae pêl-droed Penyparc.	Nodwyd.
145	Adam Wadding, Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru	Gwybodaeth mai £6.98 yw'r swm priodol ar gyfer 2013-14 at ddibenion Adran 137.	Nodwyd.
146	Evelyn Crescent Ltd	Llythyr oddi wrth Mr Lowe yn cadarnhau ei fod adre o'i wyliau.	<b>Gweler eitem 5.</b>
147	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol)	Llythyr yn datgan bod cyfnod y Cyng. Lyn Jones ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc wedi dirwyn i ben ar 16 Mai, 2012. Gofynnir am enw a chyfeiriad y person a enwebwyd yn lle'r Cyng. Lyn Jones.	Cytunodd y Cyng. Lyn Jones gael ei ailethol fel cynrychiolydd y Cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price.
148	Un Llais Cymru	Cofnodion cyfarfod mis Hydref 2012 ac agenda cyfarfod nos Fercher 23/1/13	Nodwyd.
149	Elin Jones AC	Llythyr yn amgau posteri newydd yn hysbysebu manylion cysylltu.	Y Clerc wedi lleoli'r posteri yn yr hysbysfyrdau.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

150	Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Ymateb i lythyr anfonwyd i'r Cyngor Sir.	<b>Gweler eitem 10.</b> Copi o'r ymateb wedi ei ddanfon at Mr Huw Lewis, Treprior.
151	Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Ymgynghoriad ar Wasanaethau Gofal Iechyd: Cydbwysio Barn: Crynodeb Gweithredol 15 Ionawr 2013. Adroddiad yr argymhellion: <a href="http://www.hywelddahb.wales.nhs.uk/Consultation">www.hywelddahb.wales.nhs.uk/Consultation</a>	Copi ar gael gan y Clerc.
152	Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill
153	Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
154	Gofal Mewn Galar	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
155	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Galwad Terfynol am Geisiadau Grant Balchder Pentrefi. I'w ddychwelyd erbyn 4/3/13.	Dosbarthwyd copïau i'r Cyng. Llinos Price, Ann Stoke ac Auriol Williams. <b>Gweler eitem 5.</b>
156	Sefydliad Aren Cymru	Hysbysiad am Daith Gerdded Noddedig, 24/3/13.	Gwybodaeth gan y Clerc. Cyhoeddwyd bod gan yr elusen fore coffi yn Neuadd y Dref ar 16/2/13.
157	Mr Ken Griffiths, Graig, Mwnt	Llythyr yn ymwneud â llwybr yr arfordir	Cytunwyd ailedrych ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn 2010. Y Clerc i gasglu'r ohebiaeth a'i trosglwyddo i'r Cadeirydd.

## 10. Materion Eraill / Other Matters.

**Cylfat ger Croesyllan, Tremain yn flociedig:** Derbyniodd y Clerc alwad ffôn oddi wrth Mr Huw Lewis, Treprior, yn dweud bod cylfat ger Croesyllan, Tremain, wedi blocio ac yn achosi llifogydd i gyntedd Croesyllan.

Derbyniwyd ymateb oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru eu bod wedi archwilio'r cylfat gyda camera ac wedi darganfod problemau oherwydd gwreiddiau coed.

Maent wedi trosglwyddo'r wybodaeth i'r Cyngor Sir (**Eitem 9 [rhif 150]**).

**Ceubyllau yng Ngolygfan Gwbart:** Awgrymwyd bod y Cyngor yn gofyn i gwmni J. J. Williams a'i Feibion gynnig pris am drwsio'r ceubyllau. Cytunodd y Cadeirydd gyfarfod â Mr Williams ar y safle i drafod y gwaith angenrheidiol.

**Golygfan Waungelod:** Adroddwyd gan y Cyng. Lyn Jones bod sbwriel wedi ymgasglu ger yr olygfan. Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir ei glirio.

**Hysbysfyrdau:** Dywedodd y Cyng. Huw Jones bod angen cynnwys eitem yr hysbysfyrdau ar agenda mis Ebrill er mwyn dechrau ar y broses o ofyn am grant drwy'r Cyngor Sir (Meinir Davies).

**Ceubwll yn Heolyfelin:** Codwyd y mater o geubwll sydd wedi gwaethugu ger Penllain, Heolyfelin, Penyparc, gan y Cyng. Llinos Price. Cytunwyd danfon llythyr at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt weithredu.

## 11. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 4 Mawrth 2013 yn Ystafell Berkley, Penyparc, am 7.30yh.

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2013

8 Ebrill (F)    13 Mai (YB) (CB)    3 Mehefin (F)    8 Gorffennaf (YB)    2 Medi (F)    7 Hydref (YB)  
4 Tachwedd (F)    2 Rhagfyr (YB)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 4 February 2013 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Present:

Cllr Dilwyn Jenkins (Chairman)  
Cllr Islwyn Iago  
Cllr Huw Jones  
Cllr Ann Stokoe  
Cllr Haydn Lewis (Local County Council Member)  
(arrived 8.20)

Cllr Llinos Price  
Cllr Lyn Jones  
Cllr Eurig Lloyd  
Cllr Des Davies  
Cllr Auriol Williams  
Mr Wynford Jones (Interim Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the February meeting, especially Mr Wynford Jones (temporary Clerk during the absence of the Clerk). Congratulations were offered to Miss Nerys Jones on her continued success with her winter sport disciplines at the British Championships.
- 2. Apologies for absence:** There were no apologies.
- 3. Minutes of the previous meeting.**  
It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Llinos Price that the minutes of the January meeting were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** Cllr Eurig Lloyd (Planning A130043)
- 5. Matters arising:**
  - Meeting with Mr Peter Lowe, Patch Caravan Park:** A letter was received from Mr Lowe confirming his return from vacation. A site meeting was arranged at Patch for Thursday, 31 January at 11.00am, attended by Mr Peter Lowe, Mr Nigel Nicholas, Cllr Dilwyn Jenkins and the Clerk (**Item 9 [146]. Mr Lowe explained that he had placed the ribbon across the entrance as work was being carried out with a mini-digger to cut back the gorse. He apologised for any inconvenience and stated that it was done for health and safety reasons. He added that the hard-stand placed alongside the caravans was placed by his company and that they would be responsible for the maintenance of this piece of land in the absence of funding from the County Council. The Chairman stated that the shoreline defence system was placed in 1982 and permission was granted for all to walk the path to the beach. It was felt that the signs alongside the caravan site were contradictory.**
  - Cae Gwyrdd Play Area:** A telephone call was received from Miss Buddug James, an officer with Penyparc YFC, confirming that the Club had discussed the matter of relocating the equipment from the play area to land alongside Ystafell Berkley. They had a number of issues which needed discussing before reaching a decision. The Clerk suggested organising a meeting with all parties involved. **The matter was discussed at the Council meeting and it was agreed that recommendations need to be presented before meeting with YFC officers. The condition of the equipment at Cae Gwyrdd needs to be reviewed and prices obtained for the removal of items to the land alongside Ystafell Berkley. It was agreed to hold a site meeting at Cae Gwyrdd on Saturday morning, 9 February at 10.00am**
  - Balchder Pentrefi:** The latest correspondence received from the County Council appertaining to the Balchder Pentrefi project was distributed to Cllrs Llinos Price, Ann Stokoe and Auriol Williams. The correspondence refers to the final call for applications, 4 March 2013.
- 6. Requests for financial support.**  
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Penyparc Scool PTA	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	£100.00
Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	
Ceredigion Young Farmers' Clubs	
Cruse Bereavement Care	

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Planning:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Observations</i>
A130043	Arosfa, Tremain. "Extension to curtilage and erection of garden room."	The Council supports the application

**County Council Planning Meeting:** 13 February 2013.

**Applications approved or refused by the County Council:**

<i>App. No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council decision</i>
A120837	Greenore and land adjoining Tremain. "Retention of portacabin, log cabin and a touring caravan (used as showers) for business use and change of use to touring caravan site for 5 caravans, siting of 2 static caravans.	Permission refused. (Details available with the Clerk)
A120841	7 Brongwyn Court, Penparc: Proposed erection of a detached building as a 'hobby shed'	Permission approved
A120864	Penffynnon, Ferwig: Erection of single storey attached garage to existing bungalow	Permission approved
A120869AV	O. C. Davies & Son Ltd., Penparc Motors: Display of signage (illuminated and non-illuminated)	Permission approved

**Site meeting.** No site meeting was held during the month.

## 8. Financial Matters.

**No bills were received during the month.**

**Receipts:** None

**Other financial matters:** The Council's accounts to date for the current financial year were scrutinised by Cllr. Ann Stokoe on 15 January 2013 and found to be correct.

The Chairman thanked Cllr Stokoe for fulfilling the task again this year.

**Council Internal Auditor:** Permission was sought to ask Mr Ken Griffiths for a quotation to audit the financial accounts for the year ending 31 March 2013.

Cllr Llinos Price proposed that the Council asks Mr Griffiths to be the Internal Auditor for the year 2012-13.

This was seconded by Cllr Auriol Williams.

## 9. Correspondence:

144	Chris Cooper	E-mail confirming the eradication of moles from the Penyparc football field.	Noted.
145	Adam Wadding, Local Government Finance Dept. Welsh Government	Notification that £6.98 is the appropriate sum for the purposes of section 137 for 2013-14.	Noted
146	Evelyn Crescent Ltd	Letter from Mr Lowe confirming his return from vacation.	<b>See item 5.</b>
147	Ceredigion County Council (Department of Education and Community Services)	Letter detailing that Cllr Lyn Jones' term as Governor on Penyparc Community Primary School Governing Body expired on 23 November 2012. The name of the newly-elected Governor was requested.	Cllr Lyn Jones agreed to be re-elected for a period of four years. Proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Llinos Price.
148	One Voice Wales	Minutes of October 2012 meeting and agenda of 23/1/13 meeting.	Noted

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

149	Elin Jones AM	Letter requesting the display of posters advertising the AM's details.	The Clerk has posted information on notice boards.
150	North & Mid Wales Trunk Road Agency	Response to letter forwarded to the County Council.	<b>See item 10.</b> Copy of response forwarded to Mr Huw Lewis, Treprior.
151	Hywel Dda Health Board	Consultation on clinical services, 15/1/13. Recommendation report on <a href="http://www.hywelddahb.wales.nhs.uk/Consultation">www.hywelddahb.wales.nhs.uk/Consultation</a>	Copy available with the Clerk
152	Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	Application for financial support.	To be discussed at the April meeting.
153	Ceredigion YFCs	Application for financial support.	To be discussed at the April meeting.
154	Cruse Bereavement Care	Application for financial support.	To be discussed at the April meeting.
155	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Final Call for Balchder Pentrefi Grant applications. To be submitted by 4/3/13.	Copies distributed to Cllrs Llinos Price, Ann Stoke and Auriol Williams. <b>See item 5.</b>
156	Kidney Wales Foundation	Notice of Walk for Life Sponsored Walk, 24/3/13	Information held by the Clerk. The charity will hold a coffee morning in the Guildhall on 16/2/13.
157	Mr Ken Griffiths, Graig, Mwnt	Letter appertaining to the coastal path.	It was agreed to retrace the 2010 correspondence. The Clerk to forward correspondence to the Chairman.

## 10. Other Matters

**Blocked culvert at Croesyllan, Tremain:** The Clerk received a phone call from Mr Huw Lewis, Treprior, stating that the culvert near Croesyllan, Tremain, was blocked and causing a flood in the porch of Croesyllan. A response has been received from the North & Mid Wales Trunk Road Agency confirming that they had carried out a camera survey of the drainage system and found that tree roots obstructed the flow. This information has been forwarded to the County Council (**Item 9 [150]**).

**Potholes in the Gwbert Viewpoint:** It was recommended that the Council invites Messrs J. J. Williams & Sons to offer a quotation to remedy the work. The Chairman agreed to meet Mr Williams at the site to discuss the relevant work.

**Waugelod Viewpoint:** Cllr Lyn Jones reported that rubbish was left at the viewpoint. It was agreed to ask the County Council to clear the debris.

**Notice Boards:** Cllr Huw Jones mentioned that the Notice Boards need to be included on the April agenda in order that the grant-seeking process can be commenced through the County Council (Meinir Davies).

**Pothole in Heolyfelin:** Cllr Llinos Price raised the matter of the ever-expanding pothole near Penllain in Heolyfelin. It was agreed to inform the County Council.

## 11. Date of next Council Meeting: 4 March, 2013 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

### Council Meetings for 2013

8 April (F)    13 May (YB) (AGM)    3 June (F)    8 July (YB)    2 September (F)    7 October (YB)  
4 November (F)    2 December (YB)

*Denotes:*    F = Ferwig Old School.    YB = Ystafell Berkley.    AGM = Annual General Meeting